



Cam 5: Cyllidebu a dadansoddi maethol

Amcanion dysgu

- Gweithio o fewn cyllideb
- Dadansoddi cynnwys maethol bwyd
- I ddatrys problemau aml-gam

Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, bydd y plant yn cael eu herio i wneud yn siwr fod eu syniadau ar y fwydlen o fewn cyllideb. Byddant yn defnyddio dulliau cyfrifo ysgrifenedig mewn cyd-destun bywyd go iawn i addasu eu syniadau ar gyfer un o'u seigiau nes eu bod yn fforddiadwy. Gallai'r plant ddarganfod cost eu cynhwysion gan ddefnyddio gwefan archfarchnad, neu fe allech chi gwblhau'r wers hon mewn archfarchnad a rhoi cyfle iddyn nhw dalu am eu heitemau eu hunain.

Problem ychwanegol y bydd angen i'r plant ei hystyried yw cynnwys maethol y saig o'u dewis a byddant hefyd yn addasu eu rysâit i gyd-fynd â gofynion maethol eu marchnad darged.

Deunyddiau sydd eu hangen

- Mynediad i'r rhyngwyd
- Templed rhestr siopa

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2: Y diffiniad o 'gylideb'	<ul style="list-style-type: none">• Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n deall ac yn gallu egluro'r term 'gylideb'.• Mae cyllideb yn swm penodol o arian y mae'n rhaid i fusnesau ei wario dros gyfnod penodol o amser.• Esboniwch mai eu cyllideb fydd y swm o arian y mae'n rhaid iddynt ei wario ar gynhyrchu un o'r seigiau cytbwys o'u bwydlen.
Sleid 3: Cyflwyno'r dasg	<ul style="list-style-type: none">• Bydd gan y plant gylideb o £1.50 fesul aelod o'r grŵp i brynu'r cynhwysion sydd eu hangen i wneud un o'r seigiau o'r fwydlen bwyty thema y maen nhw wedi'i dylunio.• Os canfyddant na allant fforddio eu syniadau gwreiddiol, bydd angen iddynt addasu eu rysâit a meddwl am ffyrdd o ddatrys y broblem bywyd go iawn hon. Mae hwn yn gyfle gwych i'r plant weithio ar eu sgiliau adio, tynnu, datrys problemau a gwaith grŵp.• Gellid asesu sgiliau iaith lafar hefyd wrth wrando ar y trafodaethau sy'n digwydd.

Sleid 4: Mathemateg gydag ystyr

- Os ydych chi'n cwblhau'r cam hwn yn yr ystafell ddosbarth, modelwch sut i ddefnyddio gwefan archfarchnad i chwilio am gynhwysion ac ymchwilio i'w prisiau. Fel arall, gellid cwblhau'r rhan hon o'r prosiect mewn archfarchnad.
- Gofynnwch i'r plant gadw cyfanswm parhaus o'u costau fel y gallant reoli eu cyllidebau yn effeithiol.
- Anogwch y plant i feddwl yn ofalus pa dulliau cyfrifo ysgrifenedig y mae angen iddynt eu defnyddio yng nghyd-destun y broblem hon.
- Cymerwch awgrymiadau ar gyfer y dulliau sydd wedi cael sylw ac arwain trafodaeth ar yr un fwyaf effeithlon i'w defnyddio.
- Trafodwch yr awgrymiadau gorau ar gyfer cyfrifo gyda degolion a modelwch y dull yr hoffech iddynt ei ddefnyddio ar gyfer adio a thynnu gyda degolion os oes angen.
- Pwysleisiwch bwysigrwydd cywirdeb wrth gyfrifo cyfanswm eu cost i sicrhau eu bod yn aros o fewn eu cyllideb. Anogwch y plant felly i wirio eu gwaith a chymryd awgrymiadau ar gyfer dulliau y gallent eu defnyddio ar gyfer hyn.
- Os ydych chi'n cwblhau'r cam hwn yn yr ystafell ddosbarth, unwaith y bydd y plant wedi cyfrifo cost prynu eu defnyddiau a gwirio eu bod wedi aros o fewn eu cyllideb, gofynnwch iddynt ysgrifennu rhestr siopa i'w hathro am y cynhwysion o'u dewis.

Sleid 6:
Dadansoddiad maethol

- Dangoswch sut i ddefnyddio teclyn bwyd Sefydliad Maeth Prydain Explore Food <http://explorefood.foodafactoflife.org.uk/Calculator/Recipe> i weithio allan y wybodaeth faethol ar gyfer y rysâit o'u dewis.
- Gofynnwch i'r plant ymchwilio i ofynion maethol dyddiol y farchnad darged o'u dewis a chymharu hyn â'r wybodaeth ar gyfer y saig maen nhw'n ei datblygu.
- Heriwch nhw i feddwl am yr hyn y gallen nhw ei ychwanegu/ei dynnu/newid i wneud eu rysâit yn fwy maethlon neu gytbwys a'u hatgoffa i fynd yn ôl ac addasu eu cyfrifiadau cyllidebu yn unol â hynny.
- Anogwch y plant i feddwl sut y gellid tynnu sylw at eu buddion maethol y maent wedi'u nodi yn eu hymgyrchoedd hysbysebu fel pwynt gwerthu unigryw ychwanegol ar eu bwydlen.
- Anogwch y plant i ddefnyddio cynnyrch Prydeinig ar gyfer eu ryseitiau lle bo hynny'n bosibl a phwysleisiwch y bydd hyn yn rhoi manteision ychwanegol iddynt eu hyrwyddo wrth hysbysebu fel milltiroedd bwyd is, safonau lles uwch ac olrheiniadwyedd.
- Pan nad yw'n bosibl dod o hyd i gynhwysion Prydeinig, gofynnwch i'r plant ymchwilio o ble mae'r cynhwysion o'u dewis yn dod.
- Gan ddefnyddio 'Google tour builder', dewch â mater milltiroedd bwyd yn fyw trwy greu taith sy'n dechrau gyda basged siopa ac yn dangos o ble yn y byd y mae pob un o'u cynhwysyn a ddewiswyd yn dod a pha mor bell mae wedi teithio.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Mathemateg	Rhif: Adio, Tynnu, Lluosi a Rhannu	<ul style="list-style-type: none">• Perfformio cyfrifiadau meddyliol, gan gynnwys gyda gweithrediadau cymysg a niferoedd mawr• Datrys problemau aml-gam adio a thynnu mewn cyd-destunau, gan benderfynu pa weithrediadau a dulliau i'w defnyddio a pham• Datrys problemau sy'n ymwneud ag adio, tynnu, lluosu a rhannu• Defnyddiwch amcangyfrif i wirio atebion i gyfrifiadau a phenderfynu, yng nghyd-destun problem, lefel briodol o gywirdeb
	Rhif: ffracsiynau (gan gynnwys degolion a chanrannau)	<ul style="list-style-type: none">• Lluoswch rifau un digid gyda hyd at ddau le degol â rhifau cyfan• Defnyddiwch ddulliau rhannu ysgrifenedig mewn achosion lle mae gan yr ateb hyd at ddau le degol• Datrys problemau sy'n ei gwneud yn ofynnol i atebion gael eu talgrynnu i raddau penodol o gywirdeb